



# Coetiroedd a Chi Taliadau Caniatâd Cwestiynau Cyffredin

## Cwestiynau Cyffredin

### **Pam mae'n rhaid i mi dalu am Ganiatâd?**

Mae angen codi tâl er mwyn talu costau ymgynghoriad mewnol hanfodl a fydd yn ein galluogi i gadarnhau ei bod yn briodol i roi'r Caniatâd i chi fel y gall y gweithgaredd neu'r digwyddiad gymryd lle yn ddiogel, gan gymryd i ystyriaeth defnyddwyr eraill yn y goedwig a hefyd i adlewyrchu'r effaith ar amgylchedd y goedwig.

### **Sut gosodwyd graddau'r taliadau ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau?**

Mae isafswm tâl gweinyddol ar Ganiatâd, yn ogystal â thaliadau ychwanegol ar gyfer rhai digwyddiadau. Gall hyn gynnwys taliadau am bob un sy'n cymryd rhan.

### **Oes rhai amgylchiadau lle nad yw'r taliadau'n briodol neu lle maent yn cael eu gostwng?**

Oes, tra bydd y tâl gweinyddol lleiaf yn gymwys mewn rhan fywaf o achosion, ni fydd taliad 'fesul pen' yn cael ei godi ar ddigwyddiad sy'n cael ei redeg ar sail anfasnachol neu elusennol.

- Lle mae'r ceisydd yn darparu gwasanaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru, mae disgrisiwn i hepgor rhan neu'r cyfan o'r tâl.
- Lle mae gweithgaredd neu ddigwyddiad sydd â thâl yn cynnwys mwy nag un tîrfeddiannwr effallai bydd y tâl 'fesul pen' yn cael ei newid.

### **A fydd Taliad Caniatâd arnom ni fel Elusen Gofrestredig?**

Bydd elusennau'n talu'r ffi weinyddol isaf oherwydd heblaw am hynny byddai cost gweinyddu Caniatâd yn gorfod dod allan o bwrs y wlad.

### **Pryd bydd trefnydd digwyddiad yn cael ei ystyried yn 'fasnachol' neu 'ddim yn fasnachol'?**

Bydd sefydliad masnachol yn gwneud elw o'r digwyddiad a dosbarthu hwn i gyfranddalwyr / perchnogion.

Tra y bydd sefydliad nad yw'n fasnachol effalai yn, neu ddim yn gwneud elw o'r digwyddiad, hyd yn oed os yw'n gwneud elw, bydd hyn yn cael ei ail-fuddsoddi er mwyn

cyflawni'r amcanion elusennol neu gymdeithasol a nodi yn ei dogfennau/ cyfansoddiad llwyodraethol.

### **A fyddwch yn codi TAW arnaf?**

Byddwn yn codi TAW ar y rhan fwyaf o Ganiatâd

### **A oes tâl am weithgareddau addysgol?**

Ddim yn gyffredinol, bydd yn dibynnu ar natur fasnachol y gweithgarwch neu ddigwyddiad.

### **Ble allaf farchogaeth fy ngheffyl heb drwydded caniatâd?**

Cewch weld holl fanylion llwybrau mynediad ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru – edrychwch ar dudalen [‘Marchogaeth Ceffylau’](#). Neu, ffoniwch ni ar 0300 065 3000 (graddfa galwad leol).

### **Pa mor aml ydych chi'n adolygu'r taliadau?**

Adolygir y taliadau'n flynyddol.